CYNHADLEDD RANBARTHOL I LYWODRAETHWYR
YNG NGOGLEDD CYMRU– 28TH EBRILL 2007
RHEOLI LLEOEDD YSGOL

Wrth sgwrsio gyda llywodraethwyr ar ?ôl y gynhadledd daeth yn amlwg fod dryswch ynglyn â'r termau a ddefnyddir ar gyfer y ffordd y mae ysgolion bach yn cael eu trefnu. Mae Estyn wedi cyhoeddi papur o'r enw 'Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru' sydd yn nodi'r gwahanol gategorïau yn glir iawn. Mae'r cyhoeddiad ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Mae'r chwe categori bras yn cael eu disgrifio yn y cyhoeddiad uchod ar dudalennau 12 - 13

"**YSGOLION CYNRADD BACH SY'N GWEITHREDU'N ANNIBYNNOL**

Mae ysgolion sy'n trefnu'u hunain yn y modd hwn yn gweithio'n annibynnol, ac ychydig o gyswllt sydd ganddynt ag ysgolion eraill fel arfer.

YSGOLION CYNRADD BACH MEWN CLYSTYRAU ANFFURFIOL

Yn yr ysgolion hyn, mae gweithio gyda'i gilydd yn golygu cyfnewid penaethiaid ac athrawon ysgolion cyfagos i drafod materion cyfredol. Gall y cyfarfodydd hyn fod yn ffynhonnell rhannu arfer dda, yn ogystal â helpu datrys anawsterau lleol, fel dod o hyd i athrawon llanw neu rannu staff peripatetig.

YSGOLION CYNRADD BACH MEWN CLYSTYRAU FFURFIOL

Mae'r math hwn o drefniadaeth yn golygu mwy o gydweithio a chydweithredu ffurfiol rhwng ysgolion bach. Er enghraifft, mae staff o ysgolion yn y clwstwr yn cyfarfod yn gyson i drafod materion, rhannu diwrnodau HMS, yn ogystal â llunio dogfennau polisi a chynlluniau gwaith ysgolion. Gall athrawon unigol gymryd cyfrifoldeb am arwain pwnc mewn clwstwr o ysgolion. Hefyd, gall fod rhannu neu gyfnewid:

- athrawon mewn meysydd arbenigol;
- cymorth gweinyddol; ac
- adnoddau.

Gall clystyru felly arwain hefyd at rannu cynllunio ymweliadau ysgol a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol.

FFEDERASIWN ANFFURFIOL NEU 'BRIFATHRAWIAETH GYFRANNOL' DROS DRO

Yn y math hwn o drefniadaeth, a all o bosibl fod yn drefniadaeth dros dro yn unig dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae pennaeth ysgol arall, sy'n ysgol fwy fel arfer, yn cymryd cyfrifoldeb am yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol fach. Mae'r trefniant hwn yn digwydd fel arfer yn dilyn swydd y pennaeth yn dod yn wag yn yr ysgol fach.

45 Mae buddion y sefyllfa hon yn cynnwys gallu defnyddio'r ystod eang o arbenigedd staff yn yr ysgol fwy i gynorthwyo cynllunio'r cwricwlwm ac addysgu a dysgu yn yr ysgol lai, yn ogystal â chynorthwyo mewn agweddau ar y broses fonitro ac arfarnu.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a yw'r trefniant hwn yn bodloni'n llawn y ddeddfwriaeth statudol sy'n berthnasol i ysgolion gan fod rhaid i ysgol, yn gyfreithlon, gael corff llywodraethol a phennaeth. Hefyd, mae materion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal yn y modd y digwydd 'prifathrawiaethau cyfrannol'. Mae'r trefniant yn drafferthus hefyd i'r graddau ei fod yn golygu pennaeth yn gweithio i ddau neu fwy o gyrff llywodraethol gwahanol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae diffyg eglurder ynghylch atebolrwydd a gwneud penderfyniadau yn y pen draw mewn meysydd allweddol fel rheoli personél a phennu cyllideb.

FFEDERASIWN

Mae ffederasiwn yn digwydd pan gaiff dwy neu fwy o ysgolion eu cau i greu un ysgol 'safle rhanedig' gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol. Gall y pennaeth a'r corff llywodraethol barhau i ddewis gweithredu pob safle fel uned gymharol annibynnol yn cwmpasu'r ystod oed lawn, ac mae hwn yn drefniant cyffredin.

Fodd bynnag, mae modd hefyd trefnu ysgolion yn ôl Cyfnod Allweddol, er enghraifft, cael safleoedd babanod a phlant iau. Gall trefnu ysgolion felly fel bod disgyblion yn cael eu grwpio yn ôl oed ddarparu buddion cynllunio a chwricwlwm, ond efallai y bydd mwy o amser teithio a chostau uwch yn gwrthbwyso'r rhain yn rhannol. Mae angen bod yn ofalus hefyd i hyrwyddo parhad profiad i'r eithaf wrth drosglwyddo o un safle i'r llall.

Er nad yw'r darpariaethau mewn grym eto, mae adran 24 Deddf Addysg 2002 yn caniatáu ar gyfer ffurf arall o drefniadaeth, sydd hefyd yn cael ei disgrifio fel ffederasiwn. Yn yr achos hwn, mae ffederasiwn yn cynnwys grŵp o ysgolion gyda chorff llywodraethol cyfrannol wedi'i ffurfio dan offeryn llywodraethu unigol. Fodd bynnag, mae'r ysgolion yn parhau'n endidau cyfreithlon ar wahân, a chanddynt eu pennaeth eu hunain. Byddai o gymorth i'r Cynulliad i archwilio pa un a ellid cymhwyso 'prifathrawiaeth gyfrannol' drwy'r llwybr hwn hefyd, a pha un a fyddai ysgolion, AALlau a chyrff llywodraethol o blaid datblygiad felly. Ni fydd y ffederasiwn o gyrff llywodraethol yn ei gwneud yn ofynnol dilyn y broses ad-drefnu ysgolion statudol. Felly, mae'n debygol y bydd yn haws i AALlau gyflawni newid drwy'r llwybr hwn.

YSGOLION ARDAL

Yn y math hwn o drefniadaeth, gellir cau dwy neu fwy o ysgolion a'u disodli gan un ysgol fwy. Gellir lleoli hon ar safle newydd, neu ar un o'r hen safleoedd gydag adeiladau wedi'u hailwampio. Mae'n ofynnol cael cynigion ad-drefnu statudol ar gyfer datblygiadau felly".